



Magnox



Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa, a gynhaliwyd ddydd Iau Mawrth 8, 2012 am 3pm yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian (Canolfan Dysgu a Datblygu, Wylfa)

Yn Bresennol:

A M Jones (Cadeirydd)	Cyngor Sir Ynys Môn - Llaneilian
T Roberts	Magnox Ltd
L Jones	Magnox Ltd
N Gore	Magnox Ltd
M Humphreys	Magnox Ltd
K White	Magnox Ltd
M F Thornton	Magnox Ltd
R Foxhall	Horizon Nuclear Power
Dr L Davies	Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
M C Warnes	Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
P A Harrop	Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)
Y Cyngorydd K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Llanfaethlu
Y Cyngorydd J V Owen	Cyngor Sir Ynys Môn – Parc a'r Mynydd
Y Cyngorydd G W Roberts OBE	Cyngor Sir Ynys Môn – Amlwch Wledig
Y Cyngorydd D Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Porth Amlwch
Y Cyngorydd T H Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
E Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
A Hughes	Cyngor Cymuned Llanbadrig
J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
G Roberts	Cyngor Cymuned Mechell
G J Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
S Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
T Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (CPRW)
P Bull	Renovate Services Co.
D Gadson	FIFAP
R M C Kemp	Ymgynghorydd TONET
A Hall	Dŵr Cymru
P A Jones	UAC
T Conway	WRA ac Aelod o'r Cyhoedd
S Roberts	Aelod o'r Cyhoedd
D Smith	Aelod o'r Cyhoedd

1 GAIR O GROESO A DERBYN YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Croesawyd Mr Richard Foxhall o Horizon hefyd, a oedd yn bresennol ar ran Mr Alan Smith.

Cafwyd ymddiheuriadau gan I W Jones (Aelod Cynulliad – Sir Fôn); L W Jones (Cyngor Sir Ynys Môn – Prosiect Ynys Ynni); S Davies (Cyngor Sir Ynys Môn – Cyfarwyddwr y Rhaglen Ynys Ynni); D William (Cyngor Sir Ynys Môn – Datblygu Economaidd); R Parry Jones (Cyngor Sir Ynys Môn - Prif Weithredwr); J Jenkin (Awdurdod Datgomisiynu Niwclear); J Jones (NFU), P Kennedy (yr Asiantaeth Safonau Bwyd); M O'Hara (Is-Grŵp Gwastraff Wylfa); Cyngw V Roberts (Cyngor Tref Amlwch); Cdr Allexander (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad); Cyngw W Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn – Llanbadrig)

Nodwyd bod Mr Nick Gore, Cyfarwyddwr y Safle, wedi cyhoeddi ei ymddeoliad, a heno oedd ei noson olaf yn y swydd. Diolchodd A M Jones i Nick am ei waith dros y 2 flynedd a dymunwyd pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

2 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 2il MEHEFIN 2011

Cynigwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir gan y Cynghorydd K Hughes ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd J V Owen.

3 MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL

Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion blaenorol.

4 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR SAFLE

Diolchodd Nick Gore i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig. Er gwaethaf ei dristwch wrth adael y safle, roedd yn falch dros ben o'r gwaith a wnaethpwyd ac o gyraeddiadau sylweddol y safle; cyraeddiadau megis parhau i gynhyrchu ar ôl y dyddiad gorffen arfaethedig ym mis Rhagfyr 2010. Credai y byddai Stuart Law yn camu'n hyderus i'w swydd. Cafodd S Law ei benodi'n Is Gyfarwyddwr y Safle a Rheolwr yr Orsaf wedi blynyddoedd o brofiad mewn amrywiol adrannau ar y safle. Nododd N Gore ei fod yn gwbl hyderus y byddai S Law yn arwain Wylfa i'r cyfnod nesaf o gynhyrchu estynedig, ac y byddai'n sicrhau safle a fyddai'n ddiogel a chydsyniol.

Diweddariad ar weithgarwch Adweithydd 1 a 2

Mae Adweithydd 1 a 2 wedi'u hadfer i'w llawn pŵer bellach. Ni fu cylchredwr nwy 5 yn weithredol am gyfnod byr er mwyn archwilio llif olew. Disgwylir y bydd Adweithydd 2 yn parhau i weithio tan ddechrau mis Mai ar ôl cyflwyno dogfen a oedd yn cyfiawnhau parhad y gwaith.

Gweithgarwch Safle

Cynhyrchwyd 3.405TWhrs hyd yn hyn eleni, yn unol â tharged o 3.502TWhrs. Mae 40 o fflasgiau tanwydd wedi'u cludo o safle Wylfa i Sellafield yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Mae Maentwrog yn parhau i gynhyrchu'n uwch na'r targed.

Diweddariad ar Gynhyrchu Estynedig

Nid oes digon o danwydd i gynnal Adweithydd 1 a 2 tan 2014. Bydd Adweithydd 2 yn parhau i gynhyrchu tan ddiwedd Ebrill neu ddechrau Mai 2012 a fydd yn caniatáu i Adweithydd 1 barhau hyd 2014.

Mae pwyllgor cymeradwyo'r NDA a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) wedi cymeradwyo dogfen Wylfa ar gyfer cynhyrchu'n estynedig ar ôl Rhagfyr 2012 mewn egwyddor.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol arbenigol i arholi strategaeth y safle ar gyfer gweithredu'r Trosglwyddiad Tanwydd Rhyng-Adweithydd (IRX) ac i asesu'r datblygiadau. Yn unol â'r adborth cyntaf, cafwyd tri argymhelliad sylfaenol:

- Yr angen i fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd yng Ngorsaf Bŵer Oldbury. Wylfa yw'r orsaf olaf dan ofalaeth Magnox sy'n dal i weithredu
- Cyflymu'r broses o gwblhau adolygiadau angenrheidiol a diweddarau dogfennau
- Adolygu amserlenni gweithgarwch cynnal a chadw i sicrhau cydsyniad ac i osgoi ymgymryd â gweithgareddau cynnal a chadw diangen

Roedd Mr Gore yn hyderus y diwellir amcanion IRX.

Danfôn tanwydd olaf Magnox – 15.12.11

Roedd yn gyfnod arwyddocaol yn hanes safle Wylfa pan ddosbarthwyd yr elfennau tanwydd niwclear terfynol o'r gwneuthurwr, Springfields Fuels Limited. Archwiliwyd y tanwydd newydd dros gyfnod y Nadolig ar gyfer Adweithydd 2 cyn ei drosglwyddo i'r peiriant tanwydd.

Asid yn gollwng yn y safle Trîn Dŵr

Gollyngodd yr asid o linell fantol y tanc storio i'w fwnd. Gwacawyd y tanc a effeithiwyd ac roedd digon o asid yn yr ail danc i ddarparu asid am fis ar gyfer y ddau adweithydd. Rheolwyd y sefyllfa'n ddiogel a chyfyngwyd yr ardal a effeithiwyd. Sicrhawyd bod y penderfyniadau ceidwadol priodol wedi'u gwneud cyn gweithredu a mynd i'r afael â'r sefyllfa. Ni ollyngodd unrhyw asid i'r amgylchedd.

Ymweliad Technegol EoN i Wylfa

Ar 14eg Chwefror, 2011, ymwelodd naw o brif aelodau sefydliad adeilad niwclear newydd EoN â safle Wylfa i arolygu perfformiad. Mae'n hynod bwysig fod aelodau allanol yn arolygu'r sefyllfa er mwyn sicrhau y gall pawb ddysgu oddi wrth brofiadau amrywiol.

Datblygiad Adeilad Newydd

Mae'r adran Dysgu a Datblygu (L&D) yn darparu hyfforddiant i staff ar y safle. Ar hyn o bryd, mae'r tîm L&D wedi'u lleoli oddi ar y safle, gerllaw'r Ganolfan Wybodaeth. Y bwriad, fodd bynnag, yw y bydd y tîm L&D yn adleoli i adeilad ar gampws Coleg Menai yn Llangefni cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Ar hyn o bryd, mae gan Horizon Nuclear Power gytundeb opsiynol sy'n caniatáu iddynt feddiannu'r adeiladau hynny ar ôl gwerthiant tir yr NDA.

Tashwedd /Mowember

Casglwyd £1000 ar safleoedd Magnox drwy dyfu mwstas ac i gynyddu ymwybyddiaeth o iechyd dynion, gan godi arian at ymchwil canser y brostad yn benodol.

Gwobrau Balchder Wylfa

Cydnabuwyd gwaith wyth o weithwyr Magnox yn ddiweddar am eu cyfraniad at eu cymunedau wedi iddynt gael eu henwebu gan eu cyd-weithwyr ar gyfer gwobrau

Pride of Wylfa. Bydd y sefydliad lle maent yn gwirfoddoli ar eu hennill o £500 sy'n rhodd gan Magnox.

Nawdd Monopoly gan EnergySolutions

Rhyddhawyd fersiwn cwbl newydd o'r gêm *Monopoly* ar ddiwedd 2011 sy'n arddangos Ynys Môn a Gorsaf Bŵer Wylfa. Mae'r orsaf bŵer ac Energy Solutions bellach ar safle'r 'Electric Company' ar y gêm wreiddiol. Noddwyd y sgwâr hwn gan Energy Solutions i gydnabod fod Wylfa wedi bod yn cynhyrchu trydan ers 40 mlynedd.

Gwobrau Prentis y Flwyddyn Coleg Menai

Noddwyd Gwobrau Prentis y Flwyddyn Coleg Menai ar y cyd gyda Magnox a Horizon Nuclear Power eleni.

Cefnogaeth a Nawdd Economaidd-gymdeithasol

Mae Wylfa wedi cael 17 o geisiadau am gefnogaeth a nawdd economaidd-gymdeithasol ers mis Rhagfyr. Y rhai llwyddiannus oedd: Canolfan Ddydd Hafan, Bryngwran; Hosbis i Blant Tŷ Gobaith; Copperfest 2012; Côr 'Singing for Pleasure' Moelfre; Clwb Nofio Ynys Môn; ac Ysgol Llanfechell. Cafwyd 108 o geisiadau ar gyfer lleoliadau dros yr haf. Mae'r cyfweiliadau wedi'u cynnal bellach a chynigir lleoliadau i 13 myfyriwr llwyddiannus.

Gweithgareddau'r Ganolfan Wybodaeth

Mae 40 o ysgolion cynradd wedi manteisio ar y prosiect gwyddoniaeth cynradd sydd wedi'i leoli mewn ysgolion cynradd lleol ac yng Nghanolfan Wybodaeth Wylfa. Dan nawdd Wylfa, croesawyd sesiwn ragflas 'Merched mewn Peirianeg' a 'Her Peirianeg i Ysgolion Cynradd' i'r safle hefyd.

'Cemeg yn Wylfa' oedd y thema ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 Ysgol David Hughes. Bu Ysgol Tryfan hefyd yn ymweld â'r safle fel rhan o'u hastudiaethau dinasyddiaeth fyd-eang ar gyfer eu tystysgrif Bagloriaeth Cymru.

Mynychodd Staff y Ganolfan Wybodaeth weithgareddau 'Byd Gwaith' yn ysgolion Caerdybi, Llangefni a Bodedern gyda chynrychiolwyr o Horizon a Choleg Menai, fel rhan o'r fenter Ynys Ynni.

Yn ddiweddar, croesawyd myfyrwyr Chweched Uchaf Ysgol Uwchradd Bodedern i safle Wylfa i gynnal diwrnod o ffug-gyfweiliadau. Cynhaliwyd y digwyddiad mewn cydweithrediad â Gyrfa Cymru a Phrifysgol Bangor.

Diolchodd Mr Nick Gore i bawb am eu cefnogaeth trwy gydol ei gyfnod ar y safle.

Diolchodd y Cadeirydd i N Gore am ei adroddiad cynhwysfawr. Cydnabuwyd hefyd cymaint y mae Wylfa yn ymwneud â'r gymuned leol a chymaint y mae'n cyfrannu tuag at y gymuned honno.

Gofynnodd Arthur Jones, beth oedd y peryglon posibl a oedd yn ymwneud â'r gwaith IRX?

Atebodd N Gore fod yr gwaith yn debyg iawn i'r hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd. Pan fydd tanwydd yn cael ei gludo o Springfields Fuels Limited, rydym yn trosglwyddo'r tanwydd i Adweithydd 1 neu Adweithydd 2. Mae'r tanwydd yn cael ei storio mewn celloedd sych, yna bydd yr elfennau tanwydd yn cael eu cludo mewn fflasgiau i'w hailbroseu. Fodd bynnag, mae'r tanwydd yn Adweithydd 2 yn llosgi ar

raddfa isel. Felly, yn hytrach na'i anfon i Sellafield, caiff ei drosglwyddo o'r gell storfa sych a'i roi yn Adweithydd 1. Byddwn yn defnyddio'r peiriannau sydd ar gael eisoes a byddwn yn dilyn trywydd y tanwydd i bob lleoliad, yn ôl yr arfer.

Gofynnodd Arthur Jones: Felly, o ran diogelwch, nid oes dim i'w boeni yn ei gylch?

Dywedodd N Gore Rydym yn sicrhau ein bod yn gwybod yn union le mae'r tanwydd. Ymgymerir â nifer o raglenni hyfforddi yn ogystal â sefydlu systemau i weithredu'n ddiogel a chydysniol.

Ar ba lefelau mae Cell 4 a 5? Pa mor llawn yw celloedd 1, 2 a 3?

Dywedodd N Gore fod celloedd sych 4 a 5 yn wag. Mae cell 1 a 3 yn cynnwys oddeutu 2000 elfen. Mae cell 2 wedi'i leihau at 2500 elfen. Amcanion bras iawn yw'r rhain.

Faint o danwydd newydd ddaeth o Springfield gyda'r cludiant hwn?

Dywedodd Stuart Law fod chwe blwch o danwydd wedi'i gludo yma ar 15fed Rhagfyr. Cafodd ei gynhyrchu yn 2009 dyma oedd ar ôl yn y storfa. Petai Springfield wedi cynhyrchu mwy, byddem yn llosgi'r tanwydd.

Ni chafwyd rhagor o gwestiynau.

5 ADRODDIAD CADEIRYDD GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn ymateb i Gynllun Busnes Drafft 2011 – 2014 yn pwysleisio agwedd economaidd-gymdeithasol y gwaith a wneir yng ngogledd-orllewin Cymru.

Nid oedd cwestiynau ynghylch adroddiad y Cadeirydd.

6 DIWEDDARIAD YR AWDURDOD DATGOMISIYNU NIWCLEAR (NDA)

Opsiynau ar gyfer symud deunydd niwclear Dounreay

Mae'r NDA wedi cyhoeddi Astudiaeth Opsiwn Dilys sy'n mynd i'r afael â'r deunyddiau niwclear sydd ar ôl yn Dounreay a elwir yn 'estroniaid'. Daw'r astudiaeth i gasgliad mai'r ddau opsiwn dilys yw symud y deunyddiau i Sellafield ar gyfer eu rheoli, neu eu rheoli yn Dounreay.

Tir sydd wedi'i ryddhau o reoliadau niwclear

Mae ardaloedd mawr o dir yn Berkeley ac yn Oldbury wedi'u cymeradwyo'n swyddogol ar gyfer datblygiadau newydd, wedi i'r rheoliadau niwclear olaf gael eu diddymu.

Adroddiad o'r Digwyddiad Cenedlaethol

Mae'r NDA wedi cyhoeddi adroddiad o'r Digwyddiad Cenedlaethol ar gyfer rhanddeiliaid, a gynhaliwyd ym Manceinion ddiwedd y llynedd. Daeth bron i 100 o gynrychiolwyr ynghyd yn y digwyddiad hwn, gan gynnwys cynrychiolwyr cymunedau lleol, Cwmnïau Trwyddedu Safle, rheoleiddwyr, swyddogion Llywodraeth, undebau llafur, EDF a grwpiau diddordeb i drafod amrywiaeth o bynciau ar ddatgomisiynu.

Adolygiad o amserlen GDF

Mae'r NDA wedi cyhoeddi adroddiad, sy'n pennu'r opsiynau ar gyfer cyflymu'r rhaglen ar gyfer datblygu Cyfleusterau Gwaredu Daearegol (GDF) yn y DU. Mae'r adroddiad a baratowyd mewn ymateb i gais gan y Gweinidog Gwladol, Charles Hendry, yn ymdrin â thri senario sy'n ymgorffori agweddau arloesol i ddarparu amrywiaeth o opsiynau i'w hadolygu.

Ymateb y rheoleiddiwr i ddogfennau diogelwch y Cyfleusterau Gwaredu Daearegol (GDF)

Mae Cyfarwyddiaeth Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yr NDA wedi croesawu adolygiad y rheoleiddwyr niwclear o ddogfennau technegol allweddol, sy'n manylu ar yr holl agweddau diogelwch wrth ddatblygu'r Cyfleusterau Gwaredu Daearegol.

Adborth ar ddogfen rheoli gwastraff

Mae galw am adborth ar ddrafft yr NDA ar Raglen Datblygu Strategaeth i Reoli Gwastraff Integredig, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r holl ddogfennau ar gael ar-lein.

Cytundeb Capenhurst wedi'i arwyddo

Mae cytundeb wedi'i arwyddo sy'n cadarnhau trosglwyddiad safle'r NDA yn Capenhurst, Swydd Gaer i URENCO, sy'n berchen ar safle â thrwydded niwclear gyferbyn â'r safle hwn.

Y cynnig a ffafrir wedi'i enwi ar gyfer Dounreay

Mae Babcock Dounreay Partnership (BDP) wedi'i enwi fel y cynnig a ffafrir mewn cystadleuaeth i berchenogi Dounreay Site Restoration Limited.

Symud deunydd Harwell a Dounreay yn ogystal â Thanwydd Ocsid

Mae'r NDA yn gweithredu ar gynnig i drosglwyddo amrywiaeth o ddeunyddiau niwclear o Harwell a Dounreay i Sellafield.

Mae'r NDA wedi penodi John Clark fel Prif Weithredwr newydd. Mae ganddo 30 mlynedd o brofiad yn y diwydiant a bydd yn ymgymryd â'i swydd newydd ar ddechrau mis Ebrill.

Mae safleoedd Magnox yn cael eu rheoli gan Energy Solutions ar ran yr NDA. Mae'r gystadleuaeth am reolaeth Magnox wedi dechrau. Caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi'n swyddogol yn yr 'European Journal' ym mis Ebrill. Ceir trafodaethau gyda'r rheini sydd â diddordeb ar ddechrau mis Mai.

Mae Gorsaf Bŵer Oldbury wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu trydan ar ôl cyfnod o 44 mlynedd. Mae'r cyfnod datgomiysu ar waith. Wylfa yw'r unig orsaf sy'n weithredol bellach dan ofalaeth Magnox.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud cais am £480,000 o gyllideb ar gyfer y Rhaglen Ynys Ynni. Maent yn disgwyl cymeradwyaeth gan yr NDA ar hyn o bryd. Bydd y penderfyniad wedi'i wneud cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Diolchodd P Harrup i N Gore am ei waith yn sicrhau fod y safle yn gweithredu'n ddiogel, ac ychwanegodd fod pawb yn yr NDA wedi gwerthfawrogi ei gyfraniad yn fawr.

Gofynnodd y Cadeirydd, pan fydd y broses dendr yn dechrau, a fyddan nhw'n cyfathrebu gyda'r cymunedau lleol ac yn sicrhau buddiannau cymdeithasol-economaidd?

Bydd yn un o'r prif flaenoriaethau a chaiff ei ystyried yn ddwys.

Gofynnodd Arthur Jones: Ynghylch y datgomisiynu, mae ymchwil yn cael ei wneud lle, yn hytrach na bod Wylfa yma am 'x' o flynyddoedd, mae'n bosib y caiff y cyfnod hwn ei leihau. Beth yw'r peryglon sy'n ymwneud â datgymalu mewn cyfnod byrrach na'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd?

Y peth cyntaf a gaiff ei wneud pan fydd yr adweithydd wedi'i ddiffodd bydd gwaredu'r tanwydd oddi yno, sy'n golygu y bydd y prif berygl wedi'i symud oddi ar y safle. Rydym yn dysgu drwy'r amser ac yn datblygu'r gwaith ar safleoedd eraill. Bydd rhai ardaloedd o'r safle yn cael ei adael tan ddyddiad hwyrach.

Nododd Arthur Jones hefyd fod yr ymchwil yn gyfyngedig. A oes ffordd o ddatblygu'r systemau o bosibl?

Mae llawer o waith yn cael ei wneud, a'r broses orau a'i defnyddir gan yr NDA sy'n ffrwyth blynyddoedd o ymchwil. Bydd yn cymryd 3 blynedd i ddad-tanwydd Wylfa, a fydd yn cael gwared ar 99% o wastraff ymbelydrol. Bydd hyn yn golygu gostyngiad enfawr mewn perthynas â pheryglon.

I gloi, nododd Arthur Jones ei fod wedi'i synnu ar hyd y blynyddoedd ei bod yn cymryd cyhyd i ddatgomisiynu. Yn fy marn i, ychydig iawn o ddatblygiadau sydd wedi'u gwneud.

Dywedodd N Gore mae gennym systemau dysgu yn eu lle. Bydd y cyfnod datgomisiynu hwn yn fyrrach o lawer na'r hyn a welir ar safleoedd eraill.

Atgoffodd S Law yr aelodau y byddai'r cyfnod datgomisiynu yn fyrrach na'r hyn a geir ar safleoedd eraill gan nad oedd gan Wylfa gyfleusterau llynnoedd.

Atgoffodd Mark Thornton, Rheolwr Gwastraff Wylfa, fod y Cyfnod Terfynol wedi'i newid eisoes i 2098.

Ni chafwyd rhagor o gwestiynau.

7 DIWEDDARIAD Y SWYDDFA RHEOLEIDDIO NIWCLEAR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dr L Davies.

Ar Dachwedd 22-23, 2011, bu tîm o'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn bresennol i weld arddangosfa o ymarfer argyfwng yn DEINIOL 11. Roedd pawb yn hapus gyda'r canlyniad a dysgwyd rhai pwyntiau pwysig, yn unol â'r disgwyl.

Cynhaliwyd archwiliad i ymchwilio i'r cyfnod segur ar y safle. Cafwyd digwyddiad anffodus lle tywalltodd olew i mewn i un o'r Adweithyddion. Cafodd ei lanhau gan y safle, a chynhaliwyd ymchwiliad i ddarganfod yr achos. Rhoddwyd caniatâd i ail-ddechrau'r Adweithydd ar ddechrau mis Ionawr. Ceir adroddiad cyflawn ar y we.

Mae profion straen wedi'u cynnal i ddarganfod sut y byddai'r DU yn ymateb i ddigwyddiad eithafol. Darparwyd adroddiadau o'r profion straen hyn gan bob safle. Gwelir adroddiad y DU ar wefan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear. Mae'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn eu hadolygu. Ar ddechrau mis Ionawr, trefnwyd digwyddiad ym Mangor, sef Cyfarfod Briffio ar Fukushima, a oedd yn gyfle i gyflwyno casgliad yr adroddiad hwn i'r ardal leol. Roedd oddeutu 100 o bobl yn bresennol, gan gynnwys rhai aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa. Adroddwyd bod y noson wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Cynigwyd ateb unrhyw gwestiynau a gododd o'r cyfarfod hwn na ofynnwyd ar y noson.

Gofynnodd Jac Jones:

Pa mor rhwydd y byddai wedi bod i dân gynnu? Yn dilyn y digwyddiadau hyn, a oes unrhyw wersi i'w dysgu?

Eglurodd Nick Gore fod yr Adweithydd yn oer adeg y digwyddiad. Nid oedd unrhyw berygl i dân gynnu. Ymhelaethodd Nick gan egluro fod falf ar agor pan gredwyd ei fod ar gau yn ystod comisiynu cylchredwr olew, a thywalltodd 15,000 galwyn o olew i'r Adweithydd. Aeth yr olew i Adweithydd oer gan aros ar y gwaelod, heb unrhyw effaith niweidiol i'r olew nac i graidd yr adweithydd. Golygai'r gwaith glanhau dilynol fod yr amserlen y cyfnod segur yn hwy na'r disgwyl.

Fodd bynnag, nid ydym eisieu gwneud unrhyw gamgymeriadau yn Wylfa felly rydym wedi derbyn awgrymiadau'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear. Diolchodd Jac Jones i Nick am ei ateb ac eglurodd ei fod wedi gofyn y cwestiwn oherwydd mae wedi'i brofi fod cyfres o ddigwyddiadau yn gallu arwain at ddigwyddiad difrifol.

Eglurodd Nick fod gan Wylfa lefel uchel o amddiffyniad a chynllun diogelwch sylfaenol. Mae cyfarfod boreol yn edrych ar argaeledd a gweithrediad y safle gydag unigolyn atebol i'r gwaith sy'n cael ei wneud ynghylch gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio o flaen llaw. Yn ogystal, ceir systemau OEF – Adborth Gweithredol, ac Op Ex – Profiad Gweithredol sy'n casglu gwybodaeth ac yn ei storio i atgoffa'r tro nesaf y gwneir y gwaith eto.

Ni ddigwyddodd dim byd y tro hwn, ond dylid bod yn wylidwrus bob amser ar gyfer digwyddiad arall. Pa systemau sydd yn eu lle i osgoi hynny?

Mae'r orsaf bŵer wedi'i chynllunio i rwystro digwyddiadau o'r fath. Rydym yn gwneud popeth posibl ac mae gennym gynlluniau amrywiol ar waith i rwystro digwyddiadau tebyg, ac i leihau camgymeriadau dynol. Mae gennym systemau ar waith, megis y Broses OpEx, sy'n ein hatgoffa, pan fyddwn yn cynnal profion cyffredinol, o'r hyn a ddigwyddodd y tro diwethaf.

Cyfaddefoch mai 'camgymeriad dynol' oedd hwn. Rydym wedi cael digwyddiad gydag olew o'r blaen. A oes trefniant yn y dyluniad er mwyn osgoi'r camgymeriadau hyn?

Cytunodd Nick mai camgymeriad dynol a gafwyd. Nid yw'r adborth gweithredol yn newid y drefn. Rydym wedi croesawu mwy o archwiliadau a gwirio amlach. Mae'r dulliau gweithredu wedi newid hefyd.

Ond, ni weithiodd y rhain yn y gorffennol?

Do, ond roedd yn ddigwyddiad gwahanol.

Nododd Jac Jones, fel aelod o Is-Grŵp Gwastraff Wylfa, ei fod yn mynd i fynychu gweithdy ar waredu olew gwastraff a gwastraff olew. A yw'r digwyddiad gyda'r olew wedi cynyddu cyfanswm yr olew a fydd angen ei gludo oddi ar y safle?

Cytunodd Mark Thornton fod storfa olew gwastraff y safle wedi cynyddu oddeutu 15,000 galwyn. Bydd y gweithdy yn mynd i'r afael â thechnegau sydd wedi'u defnyddio yn y gorffennol, ac yn dadansoddi ai'r technegau hyn yw'r technegau gorau i'w defnyddio wrth gamu i'r dyfodol.

Tynnodd Arthur Jones sylw Grŵp Rhanddeiliad Safle Wylfa at y ffaith fod y newyddion canol dydd wedi nodi fod yr haul yn taflu fflaglau heulol tuag at y ddaear a allai effeithio ar systemau lloeren ac achosi toriadau trydan.

Atebodd Nick nad oedd unrhyw systemau yn safle Wylfa a oedd yn ddibynnol ar loerennau.

Cyfeiriodd Arthur Jones at ddigwyddiad yn y gorffennol pan gollwyd cyswllt gyda'r llinellau pŵer a bu'n rhaid i Wylfa gau.

Cadarnhaodd Nick os bysa y cysylltiad llinell pŵer yn methu, yna ie, byddai'n rhaid i Wylfa gau.

Gofynnodd P Bull o Renovate a yw'r tyrbinau nwy wedi'u hamddiffyn rhag y fflagiad heulol?

Nododd S Law na fyddai'n effeithio ar y tyrbinau nwy na disel. Gellir gweld yr effaith ar linellau trosglwyddo hir, ond byddai hynny'n fwy tebygol mewn lleoedd megis Canada yn hytrach na'r DU.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr L Davies am drefnu'r digwyddiad ym Mangor ym mis Ionawr.

8 DIWEDDARIAD GAN IS-GRŴP ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL WYLFA – M Humphreys

Bydd Cronfa Economaidd-Gymdeithasol Magnox yn agor ar 1 Ebrill lle gellir gwneud cais am £100 - £100,000. Mae'r porth ar-lein ar brawf ar hyn o bryd. Amcangyfrifir y byddai'n cymryd 20 munud i llenwi ffurflen gais am £5000. Mae'r system yn mynd yn fwy cymhleth wrth i'r cyfanswm arian gynyddu. Byddai cais am £100,000 o nawdd yn cymryd oddeutu 45 munud i'w gwblhau.

Mae Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa wedi'i wahodd i fynychu cyfarfodydd panel adolygu cyllid misol i rannu'i farn ac i asesu'r defnydd mewn cyd-destun lleol.

Nid yw'r wefan yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Yr amcan yw sefydlu'r wefan yn Saesneg a chanfod unrhyw fân broblemau. Yna, caiff y safle ei drosi i'r Gymraeg. Bydd y broses yn cymryd ychydig fisoedd i'w gwblhau. Cytunodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig sicrhau bod y wefan yn ddwyieithog.

Os nad oes gan unrhyw unigolyn fynediad i'r we er mwyn cyflwyno cais ar-lein, gallant ofyn am ffurflen bapur.

Y brif neges yw bod yr arian ar gael o hyd, ond ceir gwahanol ffyrdd o wneud cais amdano.

Diolchodd y Cadeirydd i M Humphreys am ei gwaith.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

9 DIWEDDARIAD GAN IS-GRŴP GWASTRAFF WYLFA

Nid oes cyfarfodydd wedi'u cynnal yn ddiweddar. Bydd gweithdy sy'n mynd i'r afael â gwastraff yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos. Rhoddir adroddiad i'r cyfarfod nesaf.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau

10 SESIWN HOLI AC ATEB FFORWM AGORED

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau or llawr

11 UNRHYW FATER ARALL

Estynnodd y Cadeirydd gyfarchion at A Smith (drwy gyfrwng Mr R Foxhall) a dymuno gwellhad buan iddo yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar.

Nododd y Cadeirydd nad oedd llawer i'w drafod, ar wahân i ddymuno pob lwc i N Gore ar ei ymddeoliad. Hefyd, mynegodd fod pawb yn edrych ymlaen at glywed am y datganiad technoleg gan Horizon yn fuan. Ceir datganiad ar ôl cyfnod ymgynghori o 6-8 wythnos. Ar hyn o bryd, nid oes dyddiad penodol ynghylch pa bryd y cyhoeddir pwy yw'r cynigydd llwyddiannus.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, diolchodd A M Jones i bawb am fynychu a daethpwyd â'r cyfarfod i ben am 16:00.

12 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

7 Mehefin 2012